

DOLEN Y TAB 125

14 - 15 Hydref 2022

Oedfa Sul 16 Hydref am 11

Gwasanaeth Diolchgarwch gyda phlant yr Ysgol Sul, Gwion yn llywyddu a lestyn yn cyfeilio.

YR OEDFAON NESAF

Hydref

- 23 Dafydd a Lowri Roberts
- 30 Y Parchedig Gethin Rhys

Tachwedd

- 6 Y Parchedig Robin Samuel
- 13 Y Parchedig Aled Edwards
- 20 Sul Diogelu dan arweiniad Emlyn Davies
Cyfle i ddangos ein bod fel cymuned yn gwneud ymdrech arbennig i ddiogelu ein plant a'n hoedolion bregus. Bydd eitemau gan yr Ysgol Sul a'r Twmiaid, a dangosir fideo newydd ar gyfer yr achlysur.

Hefyd ddydd Sul 16 Hydref

12.00 Radio Cymru

Oedfa dan arweiniad Meilyr Geraint, Caerdydd.

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol

Yn nhymor diolchgarwch bydd Nia yn sgwrsio gyda'r artist Eddie Ladd sydd wedi dychwelyd i'w chynefin yng Ngheredigion.

E-fwletin Cristnogaeth 21

www.cristnogaeth21.cymru

Derbyn Aelodau Newydd

Wedi'r holl ansicrwydd dros y cyfnod diweddar yn sgil Covid, roedd awyrgylch gynnes a llawer mwy hyderus am ddyfodol yr achos fore Sul 9 Hydref pan groesawyd saith aelod newydd. Cyn eu derbyn yn ffurfiol ar ran y Tabernacl gan Geraint Wyn Davies fe soniodd y Parchedig Eirian Rees am arwyddocâd bod yn aelod o gymuned yr eglwys. Enwau'r saith yw Eunice Davies, Sian Eleri Fudge, Eirian Hughes, Elwyn Hughes, Aled Humphreys, Ann Owen ac Iwan West. Hyderwn y byddant yn derbyn bendith o fod yn aelodau ac yn barod i ychwanegu at ein gallu i helpu'n gilydd, ac i gyfrannu'n llesol i'r gymuned ehangach, yn lleol a thu hwnt.

Ymgyrch Hydref y Twmiaid

Yn ystod mis Hydref mi fydd y Twmiaid yn casglu dillad ar gyfer elusennau lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc bregus. Mae'r criw yn gwybod pa mor lwcus ydynt i gael popeth sydd ei angen arnynt, ac felly'n awyddus iawn i estyn llaw a helpu eraill. Felly os ydych yn clirio dillad cyn y Nadolig a heb gael cyfle i gyrraedd y siop elusen, neu mae'r plant wedi tyfu a'r dillad bellach yn rhy fach, yna dewch â nhw i'r Tabernacl!

Ceir manylion o'r dillad sydd eu hangen a phryd i'w cyflwyno yn yr hysbyseb isod.

DILLAD PLANT!
Ni'n casglu dillad plant ar gyfer elusennau lleol

Pob math o ddillad - 10-18 oed
Dillad glaw, cotiau cynnes
a wellies - 4 - 18 oed

Mi fydd y Capel neu'r Ganolfan ar agor
yn ystod y bore coffi Dydd Mawrth,
Gwasnaethau Dydd Sul, ynghyd a Bore Iau a
Sadwrn

Casglu trwy mis Hydref!



Briwsion o'r Bwrdd

Cynhaliwyd cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr nos Fawrth diwethaf dan gadeiryddiaeth Edwyn. Dyma grynodedb o'r prif faterion:

Ffrydio Oedfaon

Adroddwyd fod technegwyr Vaughan Sounds wedi gosod y system newydd yn ei lle yn gynharach yn y dydd, ac unwaith y bydd rhai wedi derbyn hyfforddiant bydd modd dechrau ffrydio'r oedfaon i safon uchel o ran llun a sain. Trafodwyd pwysigrwydd derbyn caniatâd rhieni'r plant a'r bobl ifanc i'w lluniau ymddangos ar y rhyngrwyd.

Cysylltwyr/ Gofalwyr Ardal

Derbyniwyd llythyr gan Lowri Roberts yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Gofalwyr, yn adrodd bwriad Geraint Wyn i roi gorau i'r gadeiryddiaeth wedi blynyddoedd o wasanaeth clodwiw. Gan fod natur y gwaith wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, teimlad y Pwyllgor oedd y byddai'n fuddiol i'r Bwrdd edrych o'r newydd ar swyddogaeth y gofalwyr. Arweiniodd hyn at drafodaeth eang am y cyfrifoldebau a sut i ddenu gwaed newydd i blith aelodaeth y tîm. Cytunodd y Bwrdd i ddychwelyd at y pwnc yn y cyfarfod nesaf er mwyn rhannu syniadau am natur y gwaith i'r dyfodol.

Enwebu Aelodau i'r Bwrdd

Nodwyd y bydd tymor pump o aelodau'r Bwrdd yn dod i ben yn y Cyfarfod Blynyddol ddiwedd Tachwedd. Caiff ffurflenni enwebu Cyfarwyddwyr newydd eu dosbarthu'n fuan i'r aelodau i gyd a chytunwyd mai dyddiad cau enwebiadau fyddai dydd Llun 14 Tachwedd.

Ymgyrch Cytûn

Derbyniwyd cais gan Gethin Rhys, Cytûn am dystiolaeth gan y Tabernacl fel rhan o ymgyrch i berswadio'r llywodraeth yn San Steffan i barhau i gynnig cymorth i gapeli gyda'u biliau ynni ar ôl mis Mawrth 2023 er mwyn sicrhau eu parhad. Roedd yn awyddus bod eglwysi sy'n gwasanaethu cymuned ehangach na'u haelodau yn eu plith. Cytunwyd i gyflwyno tystiolaeth iddo ar y Tabernacl.

Capel y Tabernacl Cyf.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bore Sul 27 Tachwedd 2022



Cinio Cynhaeaf

Dydd Sul 16eg o Hydref

(Ar ol y Cwrdd Diolchgarwch)

Neuadd y Pentref

*Pawb i ddod a rhywbeth i gyfrannu
tuag at y cinio mawr!*



CYLCH CADWGAN

Nos Wener 28 Hydref

am 8yh

Noson yng nghwmni Delwyn Siôn

Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth

Croeso cynnes i bawb

Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Cwrdd Chwarter

**Anerchiad Llywydd yr Undeb
Y Parchedig Beti-Wyn James,
Caerfyrddin**

7.30 Nos Fercher 26 Hydref
Capel Minny Street, Caerdydd CF24 4ER

CROESO CYNNES I BAWB

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk